***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1273

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

## RHAN 13

CYMORTH I FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG SYDD AG ANABLEDDAU

**Cyrsiau ôl-radd dynodedig**

**93.**—(1) Mae cwrs ôl-radd yn gwrs dynodedig at ddibenion adran 22(1) o'r Ddeddf a rheoliad 92 —

(a) os yw'n gwrs y mae angen gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfatebol) neu'n uwch i gael mynediad iddo fel rheol;

(b) os yw'n gwrs —

(i) sy'n para am o leiaf un flwyddyn academaidd; a

(ii) yn achos cwrs rhan-amser, y mae fel arfer yn bosibl cwblhau'r cwrs mewn nid mwy na dwywaith y cyfnod sydd fel arfer yn ofynnol ar gyfer cwblhau'r cwrs amser-llawn cyfatebol;

(c) os yw'n cael ei ddarparu yn gyfan gwbl gan sefydliad neu sefydliadau addysgol yn y Deyrnas Unedig a ariennir yn gyhoeddus neu'n cael ei ddarparu gan sefydliad neu sefydliadau o'r fath ar y cyd â sefydliad neu sefydliadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig; ac

(ch) nad yw'n gwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon neu gwrs yr ymgymerir ag ef fel rhan o gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth.

(2) At ddibenion paragraff (1) —

(a) mae cwrs yn cael ei ddarparu gan sefydliad os yw'r sefydliad yn darparu'r addysgu a'r goruchwylio sy'n ffurfio'r cwrs, p'un a yw'r sefydliad wedi gwneud cytundeb gyda'r myfyriwr i ddarparu'r cwrs neu beidio;

(b) bernir bod prifysgol ac unrhyw goleg cyfansoddol neu sefydliad sydd o natur coleg prifysgol yn cael eu hariannu'n gyhoeddus os yw naill ai'r brifysgol neu'r coleg cyfansoddol neu sefydliad yn cael eu hariannu'n gyhoeddus; ac

(c) ni fernir bod sefydliad yn cael ei ariannu'n gyhoeddus dim ond am ei fod yn cael arian cyhoeddus oddi wrth gorff llywodraethu sefydliad addysg uwch yn unol ag adran 65(3A) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**).

(3) At ddibenion paragraff (1)(b)(ii)—

(a) ystyr "cwrs amser-llawn cyfatebol" ("*full-time equivalent*") yw cwrs amser-llawn sy'n arwain at yr un cymhwyster â'r cwrs o dan sylw;

(**1**) 1992 p. 13; mewnosodwyd adran 65(3A) gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 27.

(b) ystyr "cyfnod sy'n ofynnol fel arfer i gwblhau'r cwrs amser-llawn cyfatebol" ("*period ordinarily required to complete the full-time equivalent*") yw'r cyfnod y byddai ei angen ar fyfyriwr amser-llawn safonol i gwblhau'r cwrs amser-llawn cyfatebol.

(c) ystyr "myfyriwr amser-llawn safonol" ("*standard full-time student*") yw myfyriwr sydd i'w ystyried yn un —

(i) sydd wedi dechrau'r cwrs amser-llawn cyfatebol ar yr un dyddiad ag y dechreuodd y myfyriwr rhan-amser cymwys ar y cwrs o dan sylw;

(ii) nad yw wedi'i esgusodi o unrhyw ran o'r cwrs amser-llawn gyfatebol;

(iii) nad yw wedi ailadrodd unrhyw ran o'r cwrs amser-llawn cyfatebol; ac

(iv) nad yw wedi bod yn absennol o'r cwrs amser-llawn cyfatebol heblaw yn ystod gwyliau.

(4) At ddibenion adran 22 o'r Ddeddf a rheoliad 92, caiff Gweinidogion Cymru ddynodi cyrsiau addysg uwch nad ydynt wedi'u dynodi o dan baragraff (1).